

Mae Modelau Cylchoedd Adfyfyriol yn ddull boblogaidd i'w ddefnyddio er mwyn ymarfer adfyfyriol, a ddefnyddwyd gan myfyrwyr ac ymarferwyr, ond rhaid bod yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'n effeithiol ac yn gywir (Willis, 2010). Dau dull sydd yn cael llawer o sylw ymarferwyr yw Cylch Adfyfyriol Gibb's (Willis, 2010) a Cylch Adfyfyriol Boud et al. (1985) á adeiladwyd ar y syniad o'r Ddamcaniaethwr John Dewey (Rodgers, 2002). Mae'r ddau gyda nifer o debygrwydd, ond hefyd ei wahaniaethau amlwg (Finlay, 2008). Pwrpas Modelau Cylchoedd Adfyfyriol fel y rhai yma, yw i helpu ymarferwyr i ddod yn gyfarwydd ag ymarfer adfyfyriol (Cable et al., 2007), i rhoi i mewn i arfer proffesiynol (Melhuish et al, 2004) ac ystyried gweithio mewn gwahanol ffurf (PACEY, 2016).

Mae Model Cylch Adfyfyriol Gibb's (1988) yn cael ei ddefnyddio'n eang trwy ddibenion addysgol a ddilynir gan llawer o ymarferwyr (Dennehy et al., 2013). Mae gan y Gylch Adfyfyriol yma cydrannau sy'n caniatáu i'r ddefnyddiwr eistedd yn ôl ac ystyried pob agwedd allweddol y sefyllfa, ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n cael ei adfyfyrio (Willis, 2010), a chreuwyd y gallu i adfyfyrio ar ymarfer a'i feddyliau eich hun a'u werthuso (Bleach, 2014), ynghyd ag ymgysylltiad gweithredol (Moyle, 2001). Yn wahanol i hyn, mae Cylch Adfyfyrio Boud et al. (1985) yn dilyn y syniad Schön (1985) o adfyfyrio ar weithred sef y broses o camu'n ôl ac yn myfyrio arno ar y ddigwyddiad, sefyllfa neu gweithgaredd (Dallos a Stedmon, 2009), dan ddylanwad cyd-destun cymdeithasol-emosiynol y mae'n digwydd ynddo (Dallos a Stedmon, 2009). Maent yn uwcholeuo adfyfyrio yng nghyd-destun 'edrych' a 'meddwl' yn barhaus am brofiadau, gweithredoedd, emosiynau, teimladau ac ymatebion, yna eu ymyrryd er mwyn dysgu oddi wrthynt (Hallet, 2013), gan ei gwneud yn anodd iawn i ddefnyddio'r cylch adfyfyriad hwn 'In Action' (Schön, 1983), sef y broses o adfyfyrio yn ystod y ddigwyddiad, sefyllfa neu gweithgaredd (Dallos a Stemon, 2009). Tra bod Cylch Adfyfyrio Gibb's gallu cael ei ddefnyddio 'In Action' a 'On Action' (Schön, 1983; Zeichner a Liston, 1996), gan nad yw'n gymhleth ac yn anhyblyg gyda theimladau dwfn a meddyliau personol yr ymarferydd blynyddoedd cynnar (Finlay, 2008). Mae hyn oherwydd ei fod wedi'i fwriadu fel dilyniant dad-friffio gyda sylw mân i feddwl a theimlo, ond yna fe'i ddefnyddiwyd yn gyffredin i hwyluso adfyfyriad (Middleton, 2017), ac felly mae hyn yn esbonio'i gydrannau a ddiffyg elfennau teimladau a feddyliau manwl a phersonol.

Fodd bynnag, er fod Cylch Adfyfyriad Gibb's (1988) yn arddangos a chynnig strwythur clir (Hallet, 2013), mae'n werth nodi bod Cylch Adfyfyriad hon yn cymryd llawer o amser a gall fod ychydig yn ddryslyd a chymhleth yn rhai mannau i ymarferwyr blynyddoedd cynnar (Dennehy et al., 2013), er enghraifft, gellid eu hystyried bod 'Gwerthuso' a 'Ddadansoddi' yn gydrannau tebyg, gan wneud i'r cylch ymddangos yn ailadroddus, ac felly gallai hyn fod yn

niweidiol neu'n anghefnogol i ymarferwyr sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol amdanynt eu hunain yn fwy tebygol o barhau â syniadau myfyriol (Finlay, 2008). Gall rhai ymarferwyr deimlo'n anghyfforddus ysgrifennu teimladau a meddyliau lawr ar bapur, ac felly osgoi adfyfyrio (Willis, 2010). Nad ydy yn galluogi dynesiad atblygol, er fod yn fformat syml (Middleton, 2017). Tra bod Cylch Adfyfyriad Boud et al. (1985) yn dangos dull mwy beirniadol a gritigol ehangach, felly, yn symlach ac yn fwy cyddwys ar gyfer ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar (Zeichner a Liston, 1996). Er bod ei ffocws yn cyfyngu adfyfyrio i rôl ôl-weithredol sef Adfyfyrio 'In Action' (Rolfe, 2011), mae'r ffocws yn aros ar weithgaredd meddyliol yr unigolyn; ni anogir ymarferwyr i gymryd rhan mewn deialog adfyfyriol mewn maes cymdeithasol ehangach (Finlay, 2008). Er ei fod yn ddarparu mwy o fewnwelediad na'r mwyafrif o gylchoedd, mae'n colli elfen bwysig y broses, sef cyd-destun o amgylch y dysgwr (Middleton, 2017).

Serch hynny, awgryma'u Strampel a Oliver (2007) yn awgrymu y gall newidiadau 'In Action' arwain y ddysgwr i gymhwyso ei fewnwelediadau a'i wybodaeth newydd, sy'n cynnwys gwneud pethau'n wahanol, egluro materion, neu ddatblygu sgiliau. Fel y dadleuwyd, er bod Cylch Adfyfyriad Gibb's yn brin o ddynesiad atblygol a gritigol (Middleton, 2017), yn wahanol i Boud et al. (1985), mae'n creu'r allu i ymarferwyr adfyfyrio 'In action' ac 'On action' (Bleach, 2014), sydd yn gwarantu bod darpariaeth o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnal (PACEY, 2016). Felly, trwy adfyfyrio a werthuso eu rôl fel ymarferwyr yn weithredol, ennillwyd gwybodaeth newydd amdanynt eu hunain a'u haddysgu (Bleach, 2014). Er hyn, nad yw'r Cylch Adfyfyriad hon yn rhoi cyfleoedd i symud y tu hwnt i ymarfer, ac nid yn darparu cyfle i archwilio gwerthoedd a chael ymarfer sydd yn arwain at newid (Middleton, 2017). Gan ddweud hyn, yn sicr mae'n bwysig i beidio esgeuluso teimladau wrth adfyfyrio, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ysgogi gan yr angen i gwneud ddefnydd o'r elfennau positif a ddileu teimladau negyddol a rhwystrol mewn gwasanaeth, er mwyn hyrwyddo eglurder dysgu (Jordi, 2010).

I gloi, yn sicr mae'r ddau Cylch Adfyfyrio yma gyda'i wendidau a'i chryfderon sydd yn wneud yn arfer da a arfer wael i ddilyn (Middleton, 2017). Er hyn, fyddai'n syniad da i ddilyn wahanol Modylau Cylch Adfyfyriad yn gymysg, gyda'n gilydd, er mwyn sicrhau fod yn ystyried teimladau a feddyliau dwfn a phersonol eich hun (Willis, 2010), a phwysleisio ar adfyfyriad mewn arfer proffesiynol (Zeichner a Liston, 1996).

Pwysigrwydd Ymarfer Myfyriol yn y Flynyddoedd Cynnar

Beth yw 'Ymarfer Adfyfyriol'?

Mae Adfyfyrio ar Ddarpariaeth yn hanfodol yn y flynyddoedd cynnar (Bleach, 2014) ac nid yw arfer hyn yn rhywbeth sy'n datblygu dros nos (Willis, 2010). Mae llawer o ddarparwyr yn ystyried bod ymarfer adfyfyriol yn ymarferwyr yn allweddol er mwyn bod yn lwyddiannus (Cable et al, 2007).

Mae adfyfyrio yn broses o feddwl a ddadansoddi yn ymarferol, gyda'r nod i greu newid, addasiadau, ddatblygu a'i wella (PACEY, 2016), sef y gallu i gamu'n ôl ac ystyried y meddyliau a'r emosiynau ynoch chi'ch hun ac eraill (Gatti a Watson, 2012), ac i fod yn barod i dyfu a newid yn barhaus (Miller-young, 2016). Mae'n cynnwys prosesau cymhleth sy'n caniatáu ymarferwyr weld pethau mewn ffurf newydd (Dallos a Stedmon, 2009). Mae Bleach (2014) yn nodi bod yn allu ofynnol i fyfyrion a werthuso ymarfer wrth ymarfer adfyfyriol, ynghyd ag ymgysylltu a thrafod gweithredol (Moyle, 2001).

Er fod y ffocws ar waith ymarferol a phroffesiynol, gellir ei ddefnyddio mewn ffordd i ymarferwyr fyfyrion ar eu hymdrechion a fesur eu perfformiad cyffredinol (Cavilla, 2017). Er mwyn fod yn lwyddiannus yn hyn, yn ol Bleach (2014) a Miller-Young (2016), mae yna gwerthoedd penodol sydd angen cael eu hystyried sef Hyder a Pharch, Ymroddiad a Blaengaredd, Meddwl Agored a Balchder.


Pwysigrwydd Ymarfer Adfyfyriol yn y Flynyddoedd Cynnar

Mae ymarfer adfyfyriol yn weithgaredd dynol pwysig, ble mae pobl yn ail-ddal eu profiadau, yn meddwl amdano, yn astudio'n ddwfn ac ei werthuso (Baginsky a Manthorpe, 2015; Boud et al, 1985).

Mae Tate a Sills (2004) yn nodi pwsigrwydd canlyniadau dysgu ymarfer adfyfyriol, trwy roi ein hun yn y phrofiad ac ymchwilio gwybodaeth bersonol a damcaniaethol i'w ddeall a'i weld mewn ffordd wahanol (Foong et al, 2018). Er bod ymarfer adfyfyriol a ddatblygiad proffesiynol yn bwysig yn bob weithle, maent yn nodwedd allweddol ac hanfodol yn lleoliadau gofal ac addysg plentyndod cynnar ar gyfer sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel (Bleach, 2014). Cytuna'i Dallos a Stedmon (2009), gan nodi bod ymarfer adfyfyriol yn cydran hanfodol o ymarfer proffesiynol, hyfforddiant ac arfer gorau i lawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl a phlant ifanc.

Mae Gattia a Watson (2012) yn nodi bod ymarfer adfyfyriol yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau teulu-ganolog o ansawdd da yn ymyrraeth blynnyddoedd cynnar, ac yn y pendraw yn creu strategaeth bwerau ar gyfer hwyluso perthynas ymddiriedol effeithiol ymhlith tîm a theuluoedd y lleoliad (Willis, 2010). Mae ymarfer adfyfyriol yn galluogi amgylchedd priodol, galluog a rhyngweithiol yn cynnwys adnoddau addas i blant wrth greu cyfleoedd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan (PACEY, 2016).

Mae rhai ymchwilwyr yn nodi nid oes gan athrawon ac ymarferwyr cyn-wasanaeth yr allu i weithredu ar lefelau uwch o feddwl myfyriol (Finlay, 2008; Korthagen et al, 2006; Larrivee, 2006). Fodd bynnag, gyflwynwyd arbrawf ddiweddar gan Foong et al (2018) ble dangoswyd bod ymarferwyr yn meddiannu lefelau uchel iawn o adfyfyrio, yn enwedig trwy cyd-adfyfyrio, ynghyd â ddystiolaeth bod ymarfer adfyfyriol yn gwneud i ymarferwyr feddwl am sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar y plant (Boud et al., 1985). Mae Gill a Whitehouse (2017) yn dweud bod adfyfyrio gydag eraill yn datblygu syniadau wahanol, rhai na feddylwyd amdanynt na thrafodwyd o'r blaen. Mae'n werth nodi bod y ddamcaniaethwr John Dewey yn credu mai ansawdd pwysigaf athro yw adfyfyrio gritigol (Rodgers, 2002).



(Ffynhonnell: Ymchwiliad Google, 2020a)

"Reflecting on how we perceive children's experience may depend on how we knew the child... The ways in which we interpret our practice are also framed by our current view of practice as well as our awareness of relevant literature, theories, case studies and research data related to variety of Early Years setting" (Paige-Smith a Craft, 2011:11)

Os hoffech ddarllen mwy o'r siwrnal academiaidd hon, ddarganfyddwch ar y ddolen isod:

https://www.researchgate.net/publication/262882634_Developing_professionalism_through_reflective_practice_and_ongoing_professional_development


Sut i fod yn 'Ymarferwr Adfyfyriol'?

Nid yw'r arfer hyn yn rhywbeth sy'n datblygu dros nos (Willis, 2010), ond mae nifer o strategaethau a ddulliau ar gael er mwyn cefnogi ymarferwyr (Bleach, 2014).

Mae Baginsky a Manthorpe (2015) yn nodi angen bod yn ymwybodol o ragfarn a gwahaniaethu posibl trwy ymarfer adfyfyriol. Mae angen i ymarferwyr ddehongli sawl wahanol lefel wrth adfyfyrio yn y flynyddoedd cynnar, sef yn rhyngbersonol, perthynol, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol (PACEY, 2016), a sylweddoli efallai na fydd yr adfyfyrio bob amser yn bositif (Dallos a Stedmon, 2015). Maent yn hanfodol bod ymarferwyr â ddealltwriaeth a chefnogaeth eang am newidiadau datblygiadol a phontio y mae plant yn profiadu sydd yn ymddangos yn eu hymddygiad (CWDC, 2010). Er mwyn lwyddo yn hyn, rhaid cael lefel uchel o annibyniaeth a cyfrifoldeb am dysgu personol wrth berfformio gweithgareddau dysgu, datrys problemau sy'n gysylltiedig â'r dasg ddysgu (Willis, 2010). Mae Cylchoed Adfyfyriol yn ddull boblogaidd i'w ddefnyddio er mwyn ymarfer adfyfyriol, ond rhaid bod yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'n effeithiol ac yn gywir (Willis, 2010). Enghraifft da o hyn yw waith y ddamcaniaethwr Bronfenbrenner (1989), gyda'i ddamcaniaeth 'Newyddian i Arbenigwr', sydd yn olygu deall sut i ddefnyddio'r offer yn effeithiol a sut i'w gymhwyso i chi yn bersonol gan fod y wybodaeth yn rhan ohonoch chi (Halpenny, Hayes a O'Toole, 2016).

Enghraifft poblogaidd o Cylch Adfyfyriol yw:

'Gibbs Reflective Cycle'



[Ffynhonnell: Google Search, 2020b)

Mae'r ddull hon yn boblogaidd oherwydd maent yn hawdd i ddarllen, ac yn syml (The University of Edinburgh, 2019).

Mae cydrannau'n caniatáu i'r defnyddiwr eistedd yn ôl ac ystyried pob agwedd allweddol ar y sefyllfa sy'n cael ei hadlewyrchu (Willis, 2010).

Gofynnwyd y ddarllenwr am deimladau, a all arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r digwyddiad, trwy hefyd annog ystyriaeth hunanarfarnu (Finlay, 2008).

Buddion

Bydd ymarfer adfyfyriol barhaus yn:-

- Cefnogi staff, cynnal a gwella darpariaeth gwasanaeth o ansawdd (Gattia a Watson, 2012), ac o ganlyniad o fudd i rieni, gofawyr a'r lleoliad (PACEY, 2016).
- Creu cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â phlant ifanc a theuluoedd, trwy adeiladu ymddiriedaeth (CWDC, 2010)
- Ennill gwybodaeth newydd amdanoch chi'ch hun a'ch addysgu, sy'n ofynnol hefyd i drafod dysgu plant a'ch ymarfer gydag eraill (Bleach, 2014).
- Caniatáu unigolion fod yn hunanfeimiadol ac yn foesegol yn ymarferol, ysgogi datblygiad rhai fel ymarferwyr a chynnal dysgu seiliedig ar ymarfer (Dallos a Stedmon, 2009)
- Gwella perfformiad academiaidd myfyrwyr a bydd yn darparu mewnweddiad personol a gwybyddiaeth rhyngbersonol sy'n ofynnol er mwyn llwyddo'n broffesiynol (Cavilla, 2017).
- Gwella sgiliau fel hyder, cymhelliant, gosod targedau, datrys problemau a chynllunio (Cavilla, 2017; Baginsky a Manthorpe, 2015; Foong et al., 2018; PACEY, 2016).

Rhwystrau

- Diffyg amser a hyder (PACEY, 2016) ac ddim yn siŵr sut i weithredu ymarfer adfyfyriol (Cable et al., 2007).
- Diffyg sgil (Baginsky a Manthorpe, 2015)
- Gall gwrthdaro a thensiwn fod yn anorffod ond mae ganddo'r potensial i greu mewnweddiadau newydd (Young, 2016)
- Ofn personol - barnedigaethau, beirniadaeth, yn amddiffynol, haerllugrwydd proffesiynol, yn erbyn clywed a chymryd adborth (Kolb, 1984).

Sut i oresgyn?

- Dyddiadur Adfyfyriol, er mwyn nodi nodiadau fel meddyliau a theimladau (Bolton, 2014).
- Yn weithredol- 'Beth wnaeth/ddim gweithio?', 'Pam?', 'Sut?' (PACEY, 2016).
- Amser ac Egni (Iser, 2003), a neilltuo rhan o'r ddiwrnod gwaith i fadyfyrio a dadansoddi (Kolb, 1984).
- Cefnogaeth cymheiriaid, gall siarad fod yn gyfrwng pwerau wrth adfyfyrio, wrth rannu syniadau a chefnogi ei gilydd (Foong et al., 2018; PACEY, 2016; Young, 2016).

Log adfyfyriol

Disgrifiad byr o'r gweithgaredd (dim mwy na 50 o eiriau)
Mae'r weithgaredd yn cynnwys Adrodd Stori, a Helfa Cymeriadau ynglwm a'r stori, wedi'i anelu at plant yn gymysg o'r oed 3 i 4, yn grŵp o 8, yn Ystafell Dosbarth. Bydd ddefnydd o adnoddau a phropiau yn ystod y stori. Bydd yr Helfa yn cynnwys propiau fel cymeriadau a fydd yn cael ei chuddio o gwmpas yr ystafell dosbarth. Rhaid i'r plant ei ddarganfod ac enwi'r cymeriadau yn gywir.
Nod/Amcan y gweithgaredd
Nod yr hanner cyntaf o'r weithgaredd, sef Adrodd Stori, yw i ddatblygu yn: • Sgiliau Llythrennedd, Llafaredd a Darllen (Aitchison, 2001) • Sgiliau Gwranddo (Booktrust, 2017) • Sgiliau Cyfarthrebu (BBC, D.D) Dewisaes yr oed yma oherwydd nodwyd Lenneberg (Lenneberg, E.H a Lenneberg, E., 2014) bod ffenest caffael iaith plentyn rhwng geni i 7, felly dyma pam ddefnyddiais grŵp 3 i 4 oed. Llywodraeth Cymru (2015a) yn y cyfnod sylfaen dweud bod datblygiad Llythrennedd, Llafaredd a Darllen plentyn yn holl bwysig, ac maent yn bwysig creu gweithgareddau yn cynrychioli'r ddatblygiadau yma i greu blant dysgwyr annibynol.
Eich rôl chi
Roeddwn yn gyfrifol o arwain y weithgaredd, chynllunio a'i werthuso. Trefnu • Dewis llyfr addas ar gyfer y grŵp oedran. • Yn gyfrifol o chasglu a ddefnyddio'r holl adnoddau a rhoi i mewn i gyd-destun y stori. • Lleoliad y gweithgaredd- sicrhau bod yn addas yn ystyr nod y weithgaredd, ac yn ddiogel i'r plant trwy asesiad risg ymlaen llaw. • Sgiliau y weithgaredd sef Llythrennedd, Llafaredd a Darllen, gan bod y sgiliau hyn yn cefnogi annibyniaeth. Arweinu • Darllen y stori-sicrhau bod y plant i gyd yn gallu weld y llyfr a'r propiau yn glir.

- Cwestiynu aml, yn enwedig i ymwneud a brif ddigwyddiadau a geiriau allweddol y stori, er mwyn cefnogi nod y dasg.
- Cefnogi a rhoi cymorth i'r plant pan maent yn uwchleuo anhawster.

Brydlondeb

- Gan bod weithle blynyddoedd cynnar yn gallu bod yn amgylchedd cyflym, felly roedden ni'n ystyried rheoli amser trwy ddim gwario gormod o amser ar y stori, er mwyn cadw sylw a ddiddordeb y plant. Ond, weithiau mae hyn yn amhosibl yn amgylcheddau blynyddoedd cynnar.
- Helfa- sicrhau bod digon o amser wedi'i adael, gan ystyried bydd rhai plant yn cymryd ychydig fwy o amser nag eraill i gyflawni'r dasg.

Pwysleisiad ar Geiriau Allweddol

Uwchleuo a phwysleisio enwai penodol a geiriau allweddol y llyfr er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn deall y stori, trwy annog cwestiynu yn aml ystod y stori, gan bod rhain yn sylweddol am nod y weithgaredd.

Agweddau cadarnhaol – pam? Sut gellid datblygu'r rhain ymhellach?

Stori

- Dealltwriaeth clir am chyd-destun a ddigwyddiadau penodol y stori, trwy arddangos cyfres o gwestiynau aml trwyddi draw o bob un plentyn.
- Arddangos ddiddordeb a chanolbwyntio trwy cyswllt llygaid, symudiadau corff, cynhwysiant.

Helfa

- Er nad oedd yn rhan o'r dasg yn wreiddiol ac nid oedd yn y chyfarwyddiadau, roedd y plant yn medru cysylltu y chymeriadau â'r ddigwyddiadau wrth iddyn ddarganfod y chymeriadau.
- Plant yn mwynhau elfennau anturus y dasg, arddangoswyd hyn trwy mynegiadau gwynebol a symudiadau'r corff.

Agweddau heriol – pam? Cysylltwch a'ch arfer eich hunan.

Diffyg Hyder

- Goslef llais a symudiadau corff wahanol, gall ddod ardraws yn anaturiol.

Gweithgaredd

- Rhy hawdd i rhai o'r blant trwy unig adnabod enwai'r cymeriadau.

- Amser i'w sbario oherwydd ni chafodd llawer o'r blant anhawster, ac arweinodd hyn i ddiffyg canolbwytio a cholli ddiddordeb. Arddangoswyd hyn, pan roedd rhai plant yn ei chael hi'n anodd eistedd yn llonydd pan yn aros eu tro.

Aelodau Staff Eraill

- Aelodau staff yn ymyrryd yn ystod y weithgaredd, ac wnaeth hyn dynnu sylw y plant oddi wrth y stori, ac felly, yn colli nodweddion ac elfennau allweddol y stori ar gyfer y helfa.

Pa wybodaeth wnaethoch **chi** arddangos?

- Dealltwriaeth pwysigrwydd datblygiad Llethrenedd, Llaferydd, a Darllen, ac adnabyddiaeth yr hyn sydd angen er mwyn cyflawni.
- Adnabod oed y plant, felly roeddwn yn siarad yn addas ar gyfer eu hoedran.
- Adnabod lefelau ddatblygiadol y plant ac yna drosglwyddo i'r weithgaredd. Er enghraifft, lefelau y dylent fod i lwyddo, a lefelau maent wir yn llwyddo.
- Nifer Addas ar gyfer y weithgaredd penodol, er enghraifft, bydd gormod o blant yn achosi tynnu sylw ac yn ymyrryd ar y grŵp.
- Symudiad Corff a Goslef Llais- adnabod bod plant yn gwrando'n well i stori á symudiadau corff a goslef llais (Boyle, 2010).
- Adnabod Cymarebau, sef 1 oedolyn i 8 plentyn 3 i 5 oed (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Pa sgiliau wnaethoch **chi** arddangos?

Sgiliau Cyfarthrebu

- Gofyn cwestiynau aml i atgyfnerthu ddigwyddiad neu cymeriad y stori.
- Cefnogi plentyn ag anhawster deall y weithgaredd trwy cwestiynau ac awgrymiadau.
- Rhoi cyfarwyddiadau syml.
- Gwrando ar cwestiynau ac atebion y plant.

Arweinyddiaeth

- Arwain y weithgaredd.
- Rhoi'r cyfarwyddiadau.
- Cymryd bai ac atebolrwydd pan aiff rhywbeth o'i le.

Cyd-weithio effeithiol

- Sicrhau roeddwn i'n gwrando'n astud i lleisiau'r plant.
- Gofyn cwestiynau aml, er mwyn cyfatebu, cefnogi neu ateb, rhoi awgrymiadau.

Cynllunio

- Addasu darpariaeth i gefnogi anghenion neu anhawsteray amrywiol.
- Trefnus trwy ystyried elfennau fel cymarebau, amser, niferoedd, oedran, lleoliad a sicrhau bod y sgil yn cael i'w gefnogi gan y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015a).
- Ymwybyddiaeth Dyfodol Llwyddiannus gan Graham Donaldson, trwy ystyried 4 pwrpas y cwricwlwm a y bydd pob plentyn a pherson ifanc, sef dysgwyr uchelgeisiol, galluog, dinasyddion gwybodus moesegol, cyfranwyr mentrus, creadigol iach, unigolion hyderus, dinasyddion moesegol, gwybodus (Llywodraeth Cymru, 2015b). Roeddwn yn sicrhau fy mhod yn cefnogi pob un o rhain yn y weithgaredd.

Sgiliau Rheoli Amser

- Sicrhau bod y stori yn hyd addas i'r plant.
- Dod ar stori i glo pan yn sylweddoli bod y plant yn ddiamynedd a wedi colli diddordeb.

Pa werthoedd wnaethoch **chi** arddangos?

Cydraddoldeb a Thegwch

- Dim stereoteipio neu categoreiddio.
- Gwneud yn siwr bod diwylliant a tollau yn cael i'w gofleiddio.
- Ystyried Crefyddau a Chredoau, er enghraifft, stori sydd yn addas i bawb.
- Defnydd o Mamiaith- deall sgiliau iaith plant, e.e dweud geiriau yn saesneg er mwyn cefnogi plant o deuluoedd a chartrefi saesneg.

Anfeirniadol

- Os daw sefyllfa feirniadol ardraws, defnydd o ddull ymarferol effeithiol, gan gydnabod sensitifrwydd a budd gorau'r plentyn.

Gwrthwahaniaethyddol

- Hyrwyddo amrywiaeth, hunan-barch a gwireddu potensial unigolyn wrth annog cydnabyddiaeth o werth gwahaniaeth, ac ennyn hunaniaeth gadarnhaol o fewn grwpiau sy'n bodoli mewn gwahanol cymunedau.

Rhannu Pwêr

- Oedolion fel modelau rôl i blant, felly mae angen fod yn ofalus sut rydym yn portreadu ac yn gweithredu ein hunain o gwmpas plant (Bleach, 2014).
- Enghraifft da o hyn yw arbrawf a theory y ddamcaniaethwr, Bandura (MacBlain, 2018) gyda'r 'Bobo Dolls'. Dangoswyd yr arbrawf yma bod plant yn dynwared beth mae oedolion yn gwneud.

Beth allai cael ei wneud yn wahanol yn y dyfodol? Pam?

Wrth werthuso ac adfyfyrio, roedd yn amlwg fod y weithgaredd yn rhy hawdd i'r plant, yn enwedig y plant fwy hun. Felly, efallai fyddai'n werth cymhlethu'r weithgaredd ychydig yn fwy er mwyn herio'r plant yn fwy.

Byddaf yn creu gem 'Snap' gyda chymeriadau a lleoliadau allweddol y stori, ac yna yn cysylltu'r ddwy yn y gem. Byddai hyn yn datblygu sgiliau cysylltu, llythrennedd a datrys problemau.

Cynllun Datblygu Personol

Agwedd ar gyfer datblygiad pellach (ychwanegwch fanylion)	Pam?	Sut?	Pwy/Ble?	Pryd?
Lleoliad Newydd	Er mwyn cael fwy o brofiad yn Ysgolion Cynradd ac bwriadu adeiladu portffolio o ansawdd da, sydd á phrofiadau eang o geni hyd at 11 oed.	Gofyn i'r Swyddog a Chydlynnydd Lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar y brifysgol i ddanfôn e-byst i ysgolion lleol yn gofyn am cyfleoedd gwaith lleoliad.	Yn Ysgol Gynradd lleol	3ydd Flwyddyn. (2020)
Cwrs TAR	Er mwyn creu porth i ddilyn gyrfa mewn Addysg Cynnar. Felly, fydd hyn yn adeiladu fy mhrofiad yn y byd addysg, sef dysgu ystod o bolisiau a reolau, a chwricwlwm ysgol.	Byddaf yn gwneud cais i'r Cwrs TAR trwy'r Prifysgol y Drindod Dewi Sant.	Prifysgol y Drindod Dewi Sant.	Ar ol graddio. 05/2021
Cwrs Hylendid Bwyd	Er mwyn sicrhau fy mhod i'n gyfredol â'r holl reoliadau a pholisïau newydd ynglwm á hylendid a thrafod bwyd yn lleoliadau Flynnyddoedd Cynnar, ac yn medru rhoi mewn i ymarfer yn fy lleoliad.	Byddaf yn gwneud hyn ar wefan sefydliedig y wê. Byddaf yn defnyddio fy nghyfrifiadur personol yn amser fy hun.	Ar Lein.	02/2020

Cwrs Diogelu	Er mwyn sicrhau fy mhod i'n gyfredol a elfennau newydd o ddiogelu yn y Flynyddoedd Cynnar. Bydd y cwrs yma yn rhoi gwybodaeth ehangach imi a'r ddiogelu plant yn y Flynyddoedd Cynnar, ac yn medru rhoi mewn i ymarfer yn fy leoliad.	Byddaf yn gwneud hyn ar wefan sefydliedig y wê. Byddaf yn defnyddio fy nghyfrifiatur personol yn amser fy hyn.	Ar Lein.	02/2020
TGAU Mathemateg	Er mwyn cael Gradd B i fynd mewn i ddilyn gyrfa yn Addysg Cynradd/ Cwrs TAR.	Byddaf yn gwneud hyn trwy Coleg Sir Gar, Campws Pibwrlwyd.	Coleg Sir Gar, Campws Pibwrlwyd.	2021
Cwrs Cymorth Cyntaf	Mae hyn yn hanfodol pan yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Fyddai hyn yn ddefnyddiol yn wahanol gweithleoedd a bywyd pob dydd.	Byddai wneud hyn trwy fy leoliad, sef Cylch Meithrin.	Sesiynau Craig Purnell, hyfforddwr arweiniol a rheolwr gyfarwyddwr hyfforddiant Cymorth Cyntaf.	/10/2020

Rhestr Cyfeirnod

Aitchison, J. (2001) *Language Change: Progress or Decay?* (3rd ed). London: Cambridge University Press.

Baginsky, M. a Manthorpe, J. (2015) *Reflective Practice*. Kings College London: Social Care Workforce Research Unit. Ar gael: <https://www.kcl.ac.uk/scwru/pubs/2015/conf/manthorpe-and-baginsky-15jan15.pdf> (Gwelir: 13/12/19)

BBC (Dim Dyddiad) *Five Ways Stories Build Better Children*. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/cbeebies/joinin/how-stories-help-children-develop> (Gwelir: 14/01/2020)

Bleach, J. (2014). 'Developing Professionalism through Reflective Practice and ongoing Professional Development.' *European Early Childhood Education Research Journal*. Vol. 22 (2), tt. 185-198.

Bolton, G. (2014) *Reflective Practice: Writing and Professional Development*. (4th Ed). London: SAGE.

Bond, D., Keogh, R. a Walker, D. (1985) 'Promoting Reflection in Learning: A Model.' *Reflection: Turning thinking into Learning*. (tt. 18-40) London: Kogan Page.

BookTrust (2017) Hints and tips for storytellers, Ar gael: <https://www.booktrust.org.uk/news-and-features/features/2017/january/hints-and-tips-for-storytellers/> (Darllenwyd: 10/11/2019).

Boyle, B. (2010) Using Socio-dramatic Play to Support a Beginning Writer: 'Daniel, the doctor and bleeding ball'. *International Journal of Early Years Education*, Vol.18 (3), tt. 213-226.

Cable, C. et al. (2007) 'Developing Reflective Early Years Practitioners within a Regulatory Framework.' *Malaysian Journal of Distance Education*. Vol. 9 (2), tt. 1-20.

Cavilla, D. (2017) *The Effects of Student Reflection on Academic Performance and Motivation*. Orlando: Sage Open.

Children's Workforce Development Council (2010) *The Common Core of Skills and Knowledge for Children and Young People's workforce*. Ar gael: <https://www.yor-ok.org.uk/YorOK-Workforce/Common%20core%20of%20skills%20and%20knowledge%20for%20the%20childrens%20workforce.pdf> (Gwelir: 13/12/19)

Dallos, R. a Stedmon, J. (2009) *Reflective Practice in Psychotherapy and Counselling*. Maidenhead: McGraw-Hill Education.

Dennehy, C. et al. (2013) "I hate Gibb's Reflective Cycle 1998": Registered Nurses' experiences of supporting nursing students' Reflective Practice in the context of student's public commentary.' *Procedia- Social and Behavioural Sciences*. Vol. 93, tt. 1371-1375.

Enfield, M. a Stasz, B. (2011) 'Presence without being present: Reflection and Action in a Community of Practice.' *Journal of the Scholarship of Teaching and Learning*, Vol. 11 (1), tt. 108-118.

Finlay, L. (2008) 'Reflecting on Reflective Practice.' *Practice-Based Professional Learning Centre Paper*. Milton Keynes, UK: The Open University. Ar gael: [www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk/content/Finlay-\(2008\)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf](http://www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk/content/Finlay-(2008)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf) (Gwelir: 13/01/2020)

Foong, L. et al. (2018) 'Individual and Collective Reflection: Deepening Early Childhood Pre-Service Teachers' Reflective thinking during Practicum.' *Australasian Journal of Early Childhood*. Vol. 43 (1), tt. 43-50.

Gatti, S. a Watson, C. (2012) 'Professional Development through Reflective Consultation in Early Intervention.' *Infants and Young Children*. Vol. 25 (2), tt. 109-121.

Gibbs G (1988) *Learning by Doing: A guide to teaching and learning methods*. Further Education Unit. Oxford Polytechnic: Oxford.

Hallet, E. (2013) *The Reflective Early Years Practitioner*. London: SAGE Publications Ltd.

Halpenny, A.M., Hayes, N. a O'Toole, L. (2016) *Introducing Bronfenbrenner: A Guide for Practitioners and Students in Early Years Education*. London: Routledge.

Ixer, G. (2003) 'Developing the Relationship Between Reflective Practice & Social Work Values.' *Journal of Practice Teaching*. Vol. 5 (1), tt. 7-22.

Jordi, R. (2010) 'Reframing the concept of Reflection: Consciousness, Experiential Learning, and Reflective Learning Practices.' *Adult Education Quarterly*. London: SAGE Publications Ltd.

Kolb, D. (1984) *Experiential Learning*. New Jersey: Prentice Hall.

Korthagen, F., Loughran, J. a Russell, T. (2006) 'Developing Fundamental Principles for Teacher Education Programs and Practices.' *Teaching and Teacher Education*. Vol. 22 (8), tt. 1020-1041.

Larrivee, B. (2006) *An Educators Guide to Teacher Reflection*. New York: Cengage Learning.

Lenneberg, E. H. a Lenneberg, E. (2014) *Foundations of Learning of Language Development: A Multidisciplinary Approach*. London: Academic Press.

Llywodraeth Cymru (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Crynodeb o Adroddiad yr Athro Graham Donaldson*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Gwelir: 03/01/2020)

Llywodraeth Cymru (2015a) *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf> (Gwelir: 20/11/19)

MacBain, S. (2018) *Learning Theories for Early Years Practice*. London: SAGE Publications.

Mannen, M. V. (1995) 'On the Epistemology of Reflective Practice.' *Teachers and Teaching: Theory and Practice*. Vol. 1 (1), tt. 33-50.

Miller-Young, J. (2016) 'How did I get here? Reflections on Learning from Multidisciplinary Communities of Practice.' *Transforming Dialogues: Teaching & Learning Journal*. Vol. 9 (1).

Moyles, J. (2001) 'Passion, Paradox and Professionalism in Early Years Education.' *Early Years*. Vol. 21 (2), tt. 81-95.

PACEY (2016) *Developing Self Reflective Practice*. Ar gael:

[https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) (Gwelir: 16/12/19)

Rodgers, C. (2002) 'Defining Reflection: Another Look at John Dewey and Reflective Thinking.' *Teachers College Record*, Vol. 104 (4), tt.842-866.

Rolfe, G. (2011) 'Knowledge and Practice in Critical Reflection in Practice' *Generating Knowledge for Care*. (Eds) Rolfe, G., Jasper, M., & Freshwater, D. pp 11-29. London: Palgrave Macmillan

Schön, D. (1983) *The Reflective Practitioner: How Professionals think in Action*. London: Temple Smith.

Strampel, K. a Oliver, R. (2007) 'Using Technology to Foster Reflection in Higher Education.' *Proceedinas Acilite Singapore*. Ar gael:

https://www.researchgate.net/profile/Ron_Oliver/publication/49277756_Using_technology_to_foster_reflection_in_higher_education/links/0deec517e791c68485000000.pdf (Gwelir: 11/01/2020)

Suffolk County Council (Dim Dyddiad) *Guidance for Promoting Equalities in Early Years and Childcare*. Ar gael:

http://www.suffolklearning.co.uk/suffolklearning_images/users/early_years_team_cyp/eycguidanceforpromotingequality.pdf (Gwelir: 28/12/19)

Tate, S. a Sills, M. (2004) *The Development of Critical Reflection in the Health Professions*. London: Higher Education Authority.

Veninnen, T., Leinonen, M., Ojala, M. a Lipponen, L. (2012) 'Creating Conditions for Reflective Practice in Early Childhood Education.' *International Journal of Childcare and Education Policy*, Vol. 6 (1), tt. 1-15.

Vygotsky, L. S. (1978) *Mind in Society: The Development of Higher Psychological Processes*. Cambridge: Harvard University Press.

Vygotsky, L. S. (1981) 'The Genesis of Higher Mental Functions.' *The Concept of Activity in Soviet Psychology*. Armonk, N.Y: M. E. Sharpe.

Willis, S. (2010) 'Becoming a Reflective Practitioner: Frameworks for the Prehospital Professional.' *Journal of Paramedic Practice*. Vol. 2 (8), tt. 212-216.

Ymchwiliad Google (2020a) Ar gael: <https://www.pinterest.com/pin/233131718183090995/> (Gwelir: 28/12/19)

Ymchwiliad Google (2020b) Ar gael: <https://www.sheffield.ac.uk/ssid/301/study-skills/university-study/reflective-practice> (Gwelir:28/12/19)

Zeichner, K. M. and Liston, D. P. (1996) *Reflective Teaching: An Introduction*. Lawrence Erlbaum Associates Publishers.